Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Panel Cynghori Amaethyddol

Penodi Cadeirydd

Dyddiad Cau: 16:00, 4 Rhagfyr

The Commissioner for Public Appointments

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud Cais	**2-4**
Atodiad A: Rôl Cadeirydd	**5-6**
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau y Panel Cynghori Amaethyddol	**7**
Atodiad C: Y broses ddethol	**8-9**

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn gadeirydd y Panel Cynghori Amaethyddol. Bydd y cadeirydd newydd yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddatblygu hyfforddiant a sgiliau yn y sector amaethyddol yn ogystal ag argymell i Weinidogion Cymru gyfraddau cyflog ac amodau ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru . Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl y cadeirydd a'r manyleb person, rôl a chyfrifoldebau'r Panel Cynghori Amaethyddol a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar y swydd wag ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio'ch cyfraniad at gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai'ch cais gael ei wrthod pe baech yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno eich rôl bresennol neu ddiweddaraf, a'r dyddiadau pan roeddech yn ymgymryd â'r rôl hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Cyfeiriadau
Rhowch ddau ganolwr (cyflogwr a phersonol) y cysylltir â hwy ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus yn unig.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	16:00, 4 Rhagfyr 2020
Llunio rhestr fer:	Rhagfyr 2020
Cyfweliadau:	Ionawr 2021

Datganiad Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn annog amrywiaeth eang o unigolion i wneud cais i fod yn aelodau o gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyder Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un sy'n anabl y mae ei gais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Yn ôl 'meini prawf gofynnol' rydym yn golygu bod yn rhaid i chi roi tystiolaeth i ni yn eich cais sy'n dangos eich bod yn gyffredinol yn bodloni lefel y cymhwysedd ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogaeth a datblygiad gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael cyfweliad gwarantedig, cysylltwch â publicappointments@gov.Cymru drwy e-bost i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen i chi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â publicappointments@gov.cymru cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Manylion Cyswllt:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Uned Cyrff cyhoeddus
E-bost: publicappointments@gov.wales

I gael rhagor o wybodaeth am rôl y Panel Cynghori Amaethyddol a rolau'r Cadeirydd, cysylltwch â Ryan Davies, Amaethyddiaeth - yr Is-adran Datblygu Cynaliadwy

Ffôn: 07743 046673
E-bost: Ryan.Davies@llyw.cymru

Os oes angen mwy o gymorth arnoch wrth ichi wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â PublicAppointments@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Penodi Cadeirydd y Panel Cynghori Amaethyddol

Cadeirydd:

Bydd Cadeirydd y Panel yn rhoi cyfeiriad strategol a goruchwyliaeth i Banel Cynghori Amaethyddol Cymru. Mae datblygu a chynnal perthynas agos â'r Gweinidog ac aelodau allweddol o sector amaethyddol Cymru yn rhan hanfodol o rôl y Cadeirydd.

Fodd bynnag, nid oes angen i Gadeirydd y Panel fod yn arbenigwr ym maes amaethyddiaeth, ond rhaid iddo ef neu hi gael profiad lefel uwch yn y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol.
Bydd gan Gadeirydd y Panel y cyfrifoldebau arweinyddiaeth strategol canlynol:

- Arwain y gwaith o lunio strategaeth a chynlluniau busnes y Panel, monitro perfformiad yn ystod y flwyddyn ac archwilio cynigion newid yn drylwyr er mwyn cynnal y ddarpariaeth;
- Sicrhau bod materion yn cael eu cyflwyno'n brydlon er mwyn eu datrys yn effeithiol;
- Sicrhau bod penderfyniadau'r Panel yn wybodus ac yn deg, gan roi ystyriaeth briodol i'r canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Cynnal goruchwyliaeth ystyriol i bolisïau eraill sy'n datblygu o fewn y sectorau amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth yng Nghymru a rhanbarthau eraill y DU, gan sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Panel yn cysoni â chyfeiriad strategol cyffredinol polisi'r llywodraeth;
- Ymgynghori ar gynigion drafft a sicrhau bod y Panel yn rhoi ystyriaeth briodol i'r ymatebion.
- Cyflwyno Gorchmynion drafft i Weinidogion Cymru ynghyd ag adroddiad yn nodi sut a pham y cyrhaeddodd y Panel eu penderfyniadau, gan gynnwys ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ymatebion i'r ymgynghoriad ac argymhellion gan grwpiau rhanddeiliaid, comisiynau eraill y Llywodraeth ac ymgyngoreion.
- Parhau i fod yn atebol am y penderfyniadau a wneir gan y Panel a monitro effeithiolrwydd y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol blynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben wrth i'r diwydiant amaethyddol addasu i newid;
- Rhoi gwybod i Weinidogion Cymru am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol y Panel neu ar gyraeddadwyedd ei dargedau, a phennu'r camau sydd eu hangen i ymdrin â newidiadau o'r fath;
- Trafod a rheoli perthynas y Panel â rhanddeiliaid;

- Cynrychioli barn y Panel i gyflogwyr amaethyddol, cyrff priodol eraill a'r cyhoedd, gan gynnwys drwy'r cyfryngau;
- Asesu perfformiad aelodau'r Panel yn flynyddol, gan gynnwys pan fyddant yn cael eu hystyried i'w hail-benodi i'r Panel, neu i'w penodi i gorff cyhoeddus arall;
- Sicrhau safonau uchel o reoleidd-dra a phriodoldeb;
- Sicrhau bod y Panel yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o feini prawf hanfodol y rôl.

Meini Prawf Hanfodol

- Tystiolaeth o ddadansoddi materion cymhleth, gan gynnwys gwybodaeth ariannol ac economaidd, i lunio barn gytbwys ac annibynnol;
- Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu rhagorol, gyda'r gallu i feithrin consensws gydag Aelodau'r Panel a pherthynas waith strategol â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys Gweinidogion a Llywodraeth, cyflogwyr, gweithwyr a'r wasg a'r cyfryngau.
- Dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â pholisi cyflogaeth neu'r gallu i'w deall, gan gynnwys cyfraddau cyflog, y farchnad lafur a'r effaith ar fusnesau a chystadleurwydd busnesau.
- Dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt a'r parodrwydd i herio arferion gwahaniaethol pryd bynnag y bo'n briodol;
- Dealltwriaeth o faterion llywodraethu ariannol a chorfforaethol ar lefel Panel.

Meini Prawf Dymunol

- Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol. Disgwylir i bob ymgeisydd arddangos empathi tuag at yr iaith;
- Diddordeb a/neu wybodaeth am y diwydiant amaethyddol;
- byddai dealltwriaeth o economeg, yn enwedig mewn perthynas â'r farchnad lafur, yn fantais.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Fel arfer cynhelir cyfarfodydd yn y Canolbarth
Ymrwymiad Amser:	Tua 12 Diwrnod y flwyddyn
Hyd y penodiad:	4 blynedd
Cydnabyddiaeth:	£300 y dydd ynghyd â threuliau rhesymol.

Pwy sy'n Gymwys

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o'r Corff yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.
https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made

Gwrthdaro buddiannau
Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd y Panel Cynghori Amaethyddol, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn y Panel Cynghori Amaethyddol.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy
Bydd y tîm penodiadau cyhoeddus yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael eu sifftio yn llwyddiannus ar gyfer cyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu o angenrheidrwydd i chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau ichi mewn cyfweliad sy'n gysylltiedig ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yn:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau'r Panel Cynghori Amaethyddol

Cefndir

Swyddogaeth y corff

Mae Panel Cynghori Amaethyddol Cymru yn gorff annibynnol sy'n cynghori Gweinidogion Cymru ar gyfraddau cyflog teg a thelerau ac amodau cyflogaeth eraill i weithwyr amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth yng Nghymru. Mae hefyd yn hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, datblygu gweithlu â sgiliau priodol ac yn rhoi cyngor ychwanegol i Weinidogion yn ôl y gofyn.

Bob blwyddyn, mae'r Panel yn adolygu'r polisi Isafswm Cyflog Amaethyddol(AMW), yn cynnig yr holl newidiadau sy'n angenrheidiol ac yn ymgynghori ar eu cynigion cyn cyflwyno Gorchymyn Cymru Amaethyddol (AWO) drafft i Weinidogion Cymru i'w ystyried. Ar ôl iddo gael ei basio gan y Senedd, mae gan y Gorchymyn awdurdod cyfreithiol yng Nghymru.

Wrth wneud eu penderfyniadau, mae'r Panel yn defnyddio eu harbenigedd ac yn ystyried yr amodau economaidd yn y diwydiant ar y pryd, yn ogystal â'r holl ofynion cyfreithiol (fel yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol). Mae hyn yn sicrhau bod gweithwyr amaethyddol yn cael cyflogau a lwfansau teg, a adolygir yn rheolaidd, gan gyfrannu ymhellach at agenda trechu tlodi Llywodraeth Cymru drwy ddiogelu incwm aelwydydd, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.

Cefnogir y Panel gan is-bwyllgor gorfodol sy'n rhoi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â datblygu sgiliau, cyfleoedd hyfforddi a dilyniant gyrfa. Gall y Panel sefydlu is-bwyllgorau eraill ar faterion penodol yn ôl y gofyn.
Mae is-adran nawdd Llywodraeth Cymru yn darparu swyddogaeth ysgrifenyddol y Panel, ac mae cwmni cyfreithiol allanol yn cynghori'r Panel ar unrhyw faterion cyfreithiol sy'n codi gan gynnwys Gorchmynion drafftio.

Gall y Panel hefyd gomisiynu astudiaethau ac ymchwil ar unrhyw feysydd penodol y maent am gael rhagor o wybodaeth yn eu cylch er mwyn llywio eu penderfyniadau. Mae angen derbyn cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru cyn derbyn unrhyw gyngor a allai arwain at gostau.

Atodiad C

Y Broses Ddewis

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Cadeirydd y panel dethol fydd Mark Alexander, Pennaeth Amaethyddiaeth, Yr Is-adran Datblygu Cynaliadwy, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys Gareth Wynn Davies, Prif Weithredwr Grŵp Wynnstay a [aelod o'r panel] fel Aelod Annibynnol o'r Panel

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Rhagfyr 2020 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Ionawr 2021. Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau yn rhithiol.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, **a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan canolfan geisiadau Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.
Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Caiff y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Panel Cynghori Amaethyddol

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd y Panel Cynghori Amaethyddol, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os byddwch yn gwneud cais am rôl y Cadeirydd ac yn llwyddiannus, gofynnir i chi fynychu gwrandawiad Senedd Cymru.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am swyddi, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef/hi i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Ar gyfer unrhyw ymholiadau am y cais, cysylltwch â publicappointments@gov.wales.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os ydych am gwyno am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â PublicAppointments@llyw.cymru.